

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu



Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau a phobl eraill sy'n gweithio mewn cyd-destunau tebyg. Yn aml, mae prosesau penderfynu sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol neu gyd-destunau tebyg yn gymhleth a gallant fod yn hynod anodd i'r rhai sy'n gysylltiedig â nhw. Mae cynorthwyo pobl i gymryd rhan yn bwysig yn y bôn, a gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd er mwyn galluogi pobl i fynegi eu barn yn hytrach na rhywun yn ei mynegi drostynt yn ddiangen. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r broses o gynorthwyo cyfranogiad, o asesu gallu pobl i siarad drostynt eu hunain i gadarnhau eu dealltwriaeth o ganlyniadau eu cyfranogiad. Mae'n cydnabod bod rhaid i gymorth ar gyfer cyfranogiad gynnwys herio rhwystrau a gwahaniaethu yn ogystal â meithrin gallu pobl i eirioli drostynt eu hunain.

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Meini prawf perfformiad

Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:

- P1 asesu **gallu pobl** i lywio systemau a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed
- P2 cytuno ar lefel a natur **eich cyfraniad eich hun** o ran cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn **prosesau penderfynu**
- P3 sicrhau bod llenyddiaeth a dogfennau ar gael i bobl yn y fformat a'r iaith sydd orau ganddynt
- P4 cynorthwyo **pobl** i ddeall cysyniadau grym a grymuso mewn sefyllfaoedd gwahanol
- P5 esbonio prosesau a gweithdrefnau er mwyn galluogi pobl i gymryd rhan mor gyflawn â phosibl
- P6 cydweithio â **phobl** i feithrin eu **gallu** i eirioli drostynt eu hunain
- P7 cyflawni eich rôl gytûn i gynorthwyo cyfranogiad mewn **prosesau penderfynu**
- P8 cadarnhau dealltwriaeth **pobl** o ganlyniadau eu cyfranogiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed
- P9 amlygu unrhyw ragfarn a gwahaniaethu a wynebir
- P10 hybu cyfiawnder cymdeithasol trwy herio **systemau neu brosesau** sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan
- P11 adolygu effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 Deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K2 Codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K3 Nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion
- K4 Damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno
- K5 Damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throsedddegol
- K6 Damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes
- K7 Beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, **polisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K8 Gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes
- K9 Natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol
- K10 Egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K11 **Ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol
- K12 Eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol
- K13 Egwyddorion cymryd risg yn gadarnhaol
- K14 Technegau datrys problemau a meddwl arloesol
- K15 Egwyddorion rheoli gwrthdaro
- K16 Natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas
- K17 Gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol
- K18 Gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

eraill

- K19 Diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill
- K20 Cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymglymedig â gwaith amlddisgyblaethol
- K21 Cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned
- K22 Egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K23 Systemau, prosesau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun a sefydliadau eraill, y gall unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau gymryd rhan ynddynt
- K24 Amrywiaeth y cymorth a all fod ei angen i hybu cyfranogiad
- K25 Potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid
- K26 Meini prawf cymhwyster ar gyfer gwasanaethau neu lifoedd ariannu
- K27 Y cyfleoedd a roddir gan ddulliau ariannu gwahanol, gan gynnwys cyllidebau unigol a thaliadau uniongyrchol
- K28 Rôl brocera o ran sicrhau gwasanaethau
- K29 Sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion
- K30 Gofynion cyfreithiol, polisiau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth
- K31 Egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Gwybodaeth Ychwanegol

Cwmpas/ystod

Ymarfer gwaith cymdeithasol ac ymarfer cysylltiedig gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad

Gall **pobl** fod yn unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau neu gymunedau

Gall **gallu** gynnwys diffiniadau cyfreithiol o 'allu meddyliol' a chysyniadau o allu i gymryd rhan â diffiniad ehangach

Gall **eich cyfraniad eich hun** gynnwys cynorthwyo pobl i fanteisio ar eiriolaeth annibynnol; mynychu cyfarfodydd gyda nhw; cynorthwyo i gwblhau gwaith papur; ac ati

Gall **prosesau penderfynu** gynnwys cynadleddau achos, cyfarfodydd amlddisgyblaethol, hawliadau neu adolygiadau tai neu fudd-daliadau, ymddangosiadau yn y llys

Gall **systemau neu brosesau** gynnwys y rhai yn eich sefydliad eich hun neu mewn sefydliadau eraill, y system gyfreithiol, y systemau budd-daliadau, sefydliadau, neu gymdeithas ehangach. Gall cynorthwyo pobl i ddefnyddio gweithdrefn gwyno eich sefydliad eich hun neu sefydliad arall fod yn rhan o'r her hon.

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gall **polisiau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau

Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

Sgiliau

- 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
- 2 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
- 3 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- 4 Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
- 5 Cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofawyr, grwpiau a chymunedau
- 6 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
- 7 Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
- 8 Herio eraill, lle bo angen, mewn ffyrdd sy'n debygol o gyflawni newid
- 9 Defnyddio eich sgiliau rhyngpersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
- 10 Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- 11 Ymarfer pendantsrwydd, grym ac awdurdod mewn ffyrdd sy'n gydnaws â gwerthoedd gwaith cymdeithasol
- 12 Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol
- 13 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
- 14 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu'n agos â:
SCD SW 9 Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
SCD SW 11 Eirioli ar ran pobl eraill

Cysylltiadau Allanol

Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

Datblygwyd gan Sgiliau Gofal a Datblygu

Rhif y fersiwn 1

Dyddiad cymeradwyo HYDREF 2011

Dyddiad adolygu mynegol EBRILL 2014

Dilysrwydd CYFREDOL

Statws GWREIDDIOL

Sefydliad gwreiddiol Sgiliau Gofal a Datblygu

URN gwreiddiol SW10

Galwedigaethau perthnasol Gweithiwr Cymdeithasol

Cyfes Gwaith Cymdeithasol

Allweddeiriau cymorth; penderfyniadau; cyfranogi